



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Trefniadau codi tâl wrth Safleoedd Rheoli ar y Ffin sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth – Ymgynghoriad

Dyddiad: 12/06/2023

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy'n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi gwyrdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi'n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i'r genhedlaeth nesaf, a'i adael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni'r amgylchedd ynddo.



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn

BCPcharging@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb gweithredol	5
Y cynnig polisi	6
Manylion ymgynghori	8
Holiadur	11
Y camau nesaf	15

Rhagair

Wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), agorodd pennod newydd i'r wlad hon fel Teyrnas Unedig gwbl annibynnol a sofran, â rheolaeth lawn dros ein ffin ac yn rhydd i gynllunio sut mae'n gweithredu i sicrhau ein bod yn darparu'r budd mwyaf i'r Deyrnas Unedig.

Mae rheolaethau bioddiogelwch ar nwyddau sy'n dod i'r Deyrnas Unedig yn elfen hanfodol o weithredu'r ffin sy'n amddiffyn gwledydd y Deyrnas Unedig, ac yn enwedig y cyfle i ddylunio model ar gyfer rheoli'r nwyddau sy'n dod i Brydain Fawr yn gadarn, gan gynnwys gwiriadau dogfennol a chorfforol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod rhag rhywogaethau ymledol, bod ein bwyd yn ddiogel i'w fwyta, a'n bod yn tarfu ar weithgaredd troseddol cyn y gall niweidio'n dinasyddion. Disgrifir hyn yn y Model Gweithredu Targedau Ffiniau. ([The Border Target Operating Model: Draft for Feedback - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/the-border-target-operating-model-draft-for-feedback))

I helpu manau mynediad i baratoi at y newidiadau hyn, ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth becyn o fwy na £700 miliwn o fuddsoddiad mewn seilwaith ffiniau, staff a thechnoleg i sicrhau bod systemau ffiniau Prydain Fawr yn barod ar gyfer rheolaethau ffiniau newydd ar ddiwedd y cyfnod pontio. Roedd hyn yn cynnwys y Gronfa Seilwaith Porthladdoedd (PIF) gwerth £200 miliwn oedd yn galluogi porthladdoedd morwrol, meysydd awyr a therfynfeydd rheilffyrdd rhyngwladol i gael arian i godi'r seilwaith a'r cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer y gwiriadau iechydol a ffytoiechydol (SPS) angenrheidiol.

Cymerodd y Llywodraeth gamau i godi seilwaith mewndirol i gefnogi porthladdoedd oedd heb le o fewn eu ffiniau a dyrannwyd £270 miliwn ar gyfer isadeiledd Safleoedd Mewndirol. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth Defra o safleoedd rheoli ar y ffin (BCPs) mewndirol sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ar gyfer Porthladd Dover ac Eurotunnel Le Shuttle.

Fel gyda BCPs masnachol presennol, rydym yn bwriadu codi tâl am ddarparu BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth, yn unol â gofynion y deddfau ar godi tâl. Rydym yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu dull teg o godi tâl am y gwasanaethau mewn BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth er mwyn lleihau unrhyw afluniad posibl yn y farchnad ac osgoi rhoi unrhyw fantais fasnachol i borthladdoedd penodol. Mae Defra felly'n cynnig gweinyddu un Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr am bob llwyth masnachol sy'n dod i mewn trwy Borthladd Dover ac Eurotunnel Le Shuttle sy'n gymwys i gael gwiriadau SPS mewn BCPs.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraethau Cymru a'r Alban ar ddarparu Safleoedd Mewndirol yng Nghymru a'r Alban lle mae rheolaethau SPS a bioddiogelwch wedi'u datganoli. Er bod yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar daliadau mewn BCPs yn Lloegr, fe allai'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr gael ei ymestyn i gynnwys cyfleusterau eraill sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ar draws Prydain Fawr.

Rydym wedi lansio'r ymgynghoriad hwn i ofyn barn y diwydiant ar egwyddorion y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr, ei fethodoleg, a'i gyfraddau dangosol. Gyda'ch help chi, gallwn sicrhau bod dull teg a chymesur o godi tâl mewn BCPs yn cael ei fabwysiadu a fydd yn ein helpu i gyflawni ffin fwyaf effeithiol y byd erbyn 2025.

Yr Arglwydd Benyon

Crynodeb gweithredol

Mae Defra wedi datblygu model codi tâl i adennill costau gweithredu safleoedd rheoli ar y ffin (BCPs) sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth yn Lloegr cyn i wiriadau SPS ar fewnforion yr UE gael eu rhoi ar waith ym mis Ionawr 2024. Y sail gyfreithiol ar gyfer codi tâl yw Erthygl 81(b) o'r Rheoliadau Rheoli Swyddogol (OCR) a ddargadwyd.

Mae Defra yn cynnig codi un Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr: un gyfradd a godir ar bob llwyth o SPS (Planhigion a Chynhyrchion Planhigion (P&PP) a Chynhyrchion Anifeiliaid) sy'n gymwys ar gyfer gwiriadau BCP ac sy'n dod i mewn drwy Borthladd Dover neu Eurotunnel Le Shuttle, p'un a ddewisir y rheiny i'w gwirio ai peidio. Nid yw hyn yn cynnwys nwyddau sy'n cyrraedd fel cludiant nwyddau rheilffordd drwy Dwnnel y Sanel, na mewnforion personol sy'n cyrraedd ar wasanaethau teithwyr Eurostar a fferis Dover gan na fydd y nwyddau hyn yn dod o dan wiriadau SPS mewn BCP. Ni fydd mewnforion anifeiliaid byw yn talu tâl nes eu bod yn dod o dan wiriadau mewn BCP, sydd wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2024. Mae dull y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr yn gwastatáu'r cyfraddau, yn rhannu'r baich, ac yn rhoi lefel uchel o sicrwydd i fewnforwyr. Bwriad y taliadau yw adennill costau gweithredu cyfleusterau'r BCP fel y nodir yn Erthygl 81(b) o'r OCR a ddargadwyd sy'n angenrheidiol er mwyn i archwiliadau corfforol gael eu gwneud. Byddai'r tâl hwn ar wahân i unrhyw daliadau a godir gan yr Awdurdod Iechyd Porthladd a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) am archwiliadau. Hefyd, nid yw'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr yn cynnwys taliadau a godir gan asiantaethau eraill y llywodraeth am weithgareddau y tu allan i'r BCP, megis unrhyw archwiliadau tollau.

Mae rheolaethau bioddiogelwch ac SPS wedi'u datganoli i Lywodraethau Cymru a'r Alban. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraethau Cymru a'r Alban ar ddarparu Safleoedd Mewndirol yng Nghymru a'r Alban. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar daliadau am gyfleusterau BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth yn Lloegr, ond fe allai'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr gael ei ymestyn i gynnwys cyfleusterau eraill sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ar draws Prydain Fawr pan fydd cynlluniau seilwaith yn cael eu cwblhau. Bydd Defra yn trafod y materion a'r canfyddiadau allweddol a godir yn yr ymgynghoriad hwn gyda Llywodraethau Cymru a'r Alban.

Dim ond mewn BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth y bydd y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr yn gymwys a mater i borthladdoedd masnachol yw penderfynu ar eu strwythur codi tâl a'u cyfraddau eu hunain.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ac arbenigedd y rhanddeiliaid i helpu i lywio a datblygu dull teg a chymesur o godi tâl BCPs yn y BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Amcanion yr ymgynghoriad, sy'n cael ei gynnal o dan Erthygl 85(3) o Reoliad Rheolaethau Swyddogol (2017/625) a ddargadwyd, yw:

- Ymgynghori ar fwriad Defra i godi un Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr ar lwythi SPS cymwys yn y BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth sy'n gwasanaethu Porthladd Dover ac Eurotunnel Le Shuttle;

- Gofyn barn ar yr egwyddorion, y fethodoleg a'r cyfraddau dangosol er mwyn pennu taliadau teg a rhesymol; a
- Sicrhau adborth gan randdeiliaid a defnyddwyr ar ffurf enghreifftiau â thystiolaeth i ddangos unrhyw effeithiau a goblygiadau posibl yn sgil cyflwyno'r taliadau hyn.

Byddem yn croesawu ymatebion gan y canlynol:

- Yr holl borthladdoedd, cyfleusterau rheilffyrdd rhyngwladol a meysydd awyr yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys:
 - Y rhai sydd â chyfleusterau BCP ar hyn o bryd;
 - Y rhai sydd wedi cael grantiau gan y llywodraeth drwy Gronfa Seilwaith y Porthladdoedd tuag at gost codi isadeiledd a chyfleusterau i alluogi'r gwiriadau iechydol a ffytoiachydol (SPS) i gael eu cyflawni ar ôl diwedd y cyfnod pontio; a hefyd
 - Y rhai sy'n cael eu cefnogi gan gyfleusterau ar y ffin sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth.
- Rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â'r diwydiant porthladdoedd gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladd, gweithredwyr fferis, cwmnïau logisteg, cludiant a chyfryngau tollau, cymdeithasau diwydiant a chyrff cynrychioli, a'r rhai sy'n helpu eraill i symud nwyddau trwy gadwyni cyflenwi traws-ffiniol;
- Busnesau yn y Deyrnas Unedig o bob maint sy'n masnachu nwyddau SPS dros ffin y Deyrnas Unedig, neu sy'n ystyried gwneud; a
- Busnesau rhyngwladol o bob maint sy'n masnachu nwyddau SPS dros ffin y Deyrnas Unedig, neu sy'n ystyried gwneud.

Rydym yn bennaf yn gofyn barn y rhai a allai gael eu heffeithio pan gyflwynir taliadau BCPs sy'n gysylltiedig â gwirio nwyddau wedi'u mewnforio at ddibenion SPS. Felly, nid ydym yn gofyn am farn gan deithwyr neu gymudwyr unigol sy'n symud dros y ffin at ddibenion hamdden neu fusnes na fydd y cynigion hyn yn effeithio arnyn nhw. Rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Y cynnig polisi

Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr – y fethodoleg arfaethedig

Byddai cyfradd y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr yn cael ei chynhyrchu drwy rannu cyfanswm costau gweithredu blynyddol y BCPs ym mhob BCP sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth sy'n gwasanaethu Porthladd Dover ac Eurotunnel Le Shuttle ar draws yr amcangyfrif o'r niferoedd blynyddol o lwythi SPS sy'n dod i mewn trwy'r porthladdoedd hyn. Diffinnir llwyth fel pob eitem gymwys a restrir mewn Datganiad Tollau. Ni fyddai'r gyfradd yn amrywio, p'un a gâi'r llwythi cymwys eu dewis ar gyfer gwiriadau BCP ai peidio. Bwriad y gyfradd yw

sicrhau bod y costau gweithredu'n cael eu hadennill yn llawn. Mae'r costau gweithredu yn cynnwys contract gweithredwyr y safle, cyfleustodau, cynnal a chadw, ardollau busnes, a thanceri ar y safle. Mae angen rhagor o waith i bennu'r dull codi tâl ar gyfer croesiadau. Byddwn yn cyhoeddi ffioedd sy'n gymwys i'r nwyddau hyn fel rhan o'n cyfraddau tâl terfynol cyn eu rhoi ar waith.

Amcangyfrifir y bydd y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr oddeutu £20 i £43 y llwyth, gan gynnwys TAW. Amrediad dangosol yw hwn tra byddwn yn parhau i bennu graddfa lawn y costau gweithredu ac yn cwblhau'r categorïau risg o dan y TOM ar gyfer cynhyrchion SPS; bydd y cyfraddau terfynol yn cael eu cyhoeddi cyn inni ddechrau codi tâl. Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno tâl gostyngol ar gyfer llwythi Cynnyrch Anifeiliaid risg isel. Er nad yw'r nwyddau hyn bellach yn mynd i gael eu gwirio'n rheolaidd mewn BCPs o dan y TOM newydd, bydd y llwythi hyn yn dal yn destun gwiriadau amledd isel yn y BCPs i fonitro cydymffurfiaeth, felly mae yna sail ar gyfer ymestyn taliadau iddyn nhw. Mae tâl gostyngol o £10 ar gyfer llwythi Cynnyrch Anifeiliaid risg isel yn debygol o gael effaith ar ffurf lleihau cyfradd safonol y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr tuag at ben isaf yr amrediad dangosol o £20 i £43.

Mae'r amrediad o ffigurau dangosol wedi'i ddarparu i helpu'r defnyddwyr i ddeall effaith bosibl y taliadau ar waith eu busnes. Mae'r amrywiad yn deillio o ansicrwydd ynghylch union lefelau'r fasnach a bydd hynny'n cael ei ddeall yn gliriach unwaith y bydd gweithrediadau'r BCPs yn dechrau. Mae'r cyfraddau hyn yn gymwys i Blanhigion a Chynhyrchion Planhigion a Chynhyrchion Anifeiliaid yn unig a byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr ar gyfer archwiliadau corfforol ar anifeiliaid byw o'r UE unwaith y bydd isadeiledd ar gyfer gwirio anifeiliaid byw ar waith, sydd wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2024. Fe all y bydd taliadau cosb am beidio â chydymffurfio a hynny er mwyn adennill y costau gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â thaliadau gohiriedig. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw gostau cosb fel rhan o'n cyfraddau codi tâl terfynol cyn eu rhoi ar waith.

Y bwriad yw y byddai'r gyfradd yn cael ei hadolygu bob deuddeng mis, ac ar ôl i'r archwiliadau corfforol ddechrau yng Nghymru a'r Alban, ac ar anifeiliaid byw, a hynny er mwyn sicrhau bod y gyfradd yn llwyddo i gyflawni'r gwaith o adennill cyfanswm y costau gweithredu yn sgil cynnal archwiliadau corfforol yn llwyddiannus. Gan hynny, mae'r ffactorau a allai effeithio ar gyfradd y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr yn cynnwys:

- Cynnydd neu ostyngiad yn y defnydd o gyfleusterau BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth, gan gynnwys gan unrhyw gynlluniau sy'n dileu nifer y llwythi cymwys;
- Newidiadau yn nifer y llwythi sy'n gymwys i gael gwiriadau BCPs sy'n dod i mewn trwy Borthladd Dover ac Eurotunnel Le Shuttle;
- Newidiadau yng nghyfanswm y costau gweithredu;
- Cyflwyno, dileu, neu atgyfnerthu cyfleusterau BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Os caiff y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr ei ymestyn i gynnwys cyfleusterau eraill sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ar draws Prydain Fawr, bydd costau rhedeg yr holl gyfleusterau ar y cyd yn cael eu rhannu ar draws llwythi cymwys sy'n dod i mewn drwy Borthladd Dover, Eurotunnel Le Shuttle ac unrhyw borthladd arall

sy'n defnyddio BCP sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth. Rydym yn bwriadu deddfu er mwyn caniatáu i daliadau gael eu codi ar draws gwahanol Awdurdodau Cymwys.

- Newid y drefn wirio mewn ymateb i'r risg bioddiogelwch cenedlaethol a asesir.

Bwriad y llywodraeth yw mai trydydd parti fyddai'n gweinyddu'r taliadau hyn ac unrhyw waith cysylltiedig i adennill dyledion oherwydd taliadau CUC heb eu talu, er bod y manylion yn dal i gael eu cwblhau. Mae'r llywodraeth yn edrych ar yr opsiwn o gymryd ffioedd fesul llwyth neu eu hagregu fel swm misol ar gyfer mewnforwyr rheolaidd. Yn dilyn cyfnod pontio byr, mae'n debygol y dechreuir codi tâl ym mis Ebrill 2024. Gall masnachwyr fod yn atebol am unrhyw ffioedd a ysgwyddir o'r adeg yr agorir y BCP. Mae taliadau eraill a fydd yn cael eu codi yn cynnwys taliadau'r Awdurdodau Iechyd Porthladd am archwiliadau ar Gynhyrchion Anifeiliaid a'r taliadau y mae APHA fel arfer yn eu codi am archwiliadau.

Masnachwr Dibynadwy

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i greu ecosystem llawn ymddiriedaeth drwy weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant ac un rhan bwysig o hyn fydd creu dull arloesol y Masnachwr Dibynadwy. Bydd hwn yn un dull unedig ar draws y llywodraeth a fydd yn lleihau'r baich ar y diwydiant, yn hwyluso masnach, ac yn rhoi manteision ehangach ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan.

Ein bwriad yw dechrau cynnal cynlluniau peilot ar agweddau ar y cynlluniau hyn o fis Ionawr 2024 ymlaen a chaiff y rhain eu cyflwyno fesul cam. Os bydd y cynlluniau peilot yn llwyddiannus, ein bwriad yw cyflwyno nifer o gynlluniau Masnachwr Dibynadwy a fydd yn dod yn rhan o raglen Masnachwr Dibynadwy traws-lywodraethol gwbl integredig. Bydd y cynlluniau hyn yn agored i fusnesau sy'n mewnforio nwyddau o'r UE a gweddill y byd, a bydd aelodaeth o'r cynlluniau'n cael ei phenderfynu yn ôl set o feini prawf sydd wedi'u diffinio'n glir a chadarn.

Gallai aelodaeth o'r cynlluniau olygu bod llwythi penodol yn cael eu hepgor o'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr, ac felly mae'n bosibl y bydd effaith ar gyfraddau codi tâl. Mae'r cynlluniau hyn yn dal i gael eu datblygu, a'n bwriad yw rhoi rhagor o fanylion am eu heffeithiau ar ôl i'r manylion terfynol gael eu pennu.

Manylion ymgynghori

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad yn agored am 4 wythnos rhwng **12/06/2023** a **09/07/2023**. Dylai'r ymatebion ddod i law erbyn 23:59 ar 09/07/2023. Y ffordd rydyn ni'n ei ffafrio ichi ymateb yw drwy lwyfan Citizen Space.

Os na allwch ddefnyddio Citizen Space, gallwch lawrlwytho'r dogfennau ymgynghori a dychwelyd eich ymateb drwy'r ebost i BCPcharging@defra.gov.uk

Sut i ymateb

Gall y rhanddeiliaid roi eu hadborth ar y newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen hon drwy'r porth ar-lein.

Ymatebion ymgyrchu

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol i fwydo'u ymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodaeth neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad gosod i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrch fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gall ymatebion ymgyrch gael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion eraill er mwyn sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau sy'n dod i law yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgyrch yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o safbwyntiau'r cyhoedd ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimpladau ar fater. Y llwybr a ffefrir i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb wedi'i seilio ar ymgyrch) yw drwy lwyfan Citizen Space.

Cyfrinachedd a gwybodaeth am ddiogelu data

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i grynodedb yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd a pha ran o'r Deyrnas Unedig y maent yn ei chynrychioli ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Caiff Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn i drefnu ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (e.e., cyfeiriad cartref, cyfeiriad ebost, etc).

Os byddwch yn clicio ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod yn agored i'w rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIRs) 2004), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018)). Mae gennyn ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â datgelu o'i gymharu ag unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â

chyfrinachedd. Os cawn gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Os cliciwch ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat ar gael i'r cyhoedd.

Gall fod adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol. Er mwyn dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad o'r crynodeb o'r ymatebion yn unig y gwneir hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet sydd i'w gweld yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Gallwch weld ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i uwchlwytho fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Charging arrangements at government-run Border Control Posts

Consultation Coordinator, Defra

2nd Floor, Foss House, Kings Pool,

1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

Neu drwy'r ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Gallwch ofyn am gopiâu papur o'r ymgynghoriad hwn drwy'r ebost yn BCPcharging@defra.gov.uk ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.defra.gov.uk/government-bcp-charging-strategy-implementation/charging-at-government-border-control-posts>.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat arall drwy'r ebost yn BCPcharging@defra.gov.uk.

Mae papur ymgynghori/crynodeb Saesneg ar gael yn <https://consult.defra.gov.uk/government-bcp-charging-strategy-implementation/charging-at-government-border-control-posts>.

Holiadur

Rydym yn gofyn am farn ac arbenigedd y diwydiant ar egwyddorion y tâl cyffredin i ddefnyddwyr, ei fethodoleg, a'i gyfraddau dangosol i helpu i lywio a datblygu dull teg a rhesymol o godi tâl yn y BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth.

Dylai'r ymatebwyr geisio lleihau unrhyw gyfeiriadau at wybodaeth fasnachol sensitif gymaint ag y gallant. Pan fo ymatebwr am ategu ei safbwynt â gwybodaeth fanylach a allai fod yn fasnachol sensitif, dylai wneud hynny drwy ddarparu ffigurau agrededig neu gyfartalog neu drwy ddefnyddio amrediad dangosol yn hytrach na'r union brisiau, costau neu wybodaeth am gwsmeriaid.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)
 - Hoffwn
 - Na hoffwn
2. Os ydych chi wedi ateb "Hoffwn" i Gwestiwn 1, rhowch eich rheswm. (Testun rhydd)
3. Beth yw enw'ch sefydliad? (Testun agored)
4. Beth yw'r disgrifiad gorau o'ch sefydliad? (Dewiswch un opsiwn yn unig)
 - Busnes yn y Deyrnas Unedig – Rydych chi'n masnachu nwyddau SPS dros ffin y Deyrnas Unedig neu'n ystyried gwneud hynny
 - Busnes rhyngwladol – Rydych chi'n masnachu nwyddau SPS dros ffin y Deyrnas Unedig neu'n ystyried gwneud hynny
 - Porthladd môr, maes awyr, neu gyfleuster rheilffordd rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig – mae nwyddau SPS yn teithio trwy'ch cyfleusterau
 - Gweithredwr fferis, busnes logisteg, cludiant, neu fusnes cyfryngu – Rydych yn helpu eraill i symud nwyddau trwy gadwyni cyflenwi traws-ffiniol
 - Corff cynrychioli, Cymdeithas Fasnach – Rydych chi'n cynrychioli buddiannau grŵp o fusnesau a/neu unigolion o fewn yr un diwydiant
 - Corff yn y sector cyhoeddus – Yn rhinwedd eich swydd fel cynrychiolydd sefydliad llywodraeth leol / darparwr gwasanaethau cyhoeddus / corff sector cyhoeddus arall yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall
 - Arall – (Rhowch y manylion)

5. Os ydych chi'n ymateb ar ran busnes, rhowch isod faint¹ y busnes rydych chi'n ymateb ar ai ran. (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Unig berchennog (busnes sy'n cael ei redeg gan un person hunangyflogedig)
- Partneriaeth gyffredin (busnes sy'n cael ei redeg gan ddau neu fwy o bobl hunangyflogedig)
- Mentrau bach a chanolig (0 i 249 o weithwyr)
- Busnes mawr (250 neu fwy o weithwyr)

6. Ble rydych chi neu'ch sefydliad wedi'ch lleoli? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Arall – (Rhowch y manylion)

7. O ble mae gan eich sefydliad ddiddordeb mewn mewnfario llwythi SPS? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)

- Mewnforion o dir mawr Ewrop
- Mewnforion o Weriniaeth Iwerddon
- Mewnforion o Weddill y Byd
- Heb fod yn gymwys

8. Ar gyfer Mewnforwyr yn unig, pa mor debygol ydych chi o fewnfario nwyddau a fyddai'n gorfod mynd i BCP sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth, pe baen nhw'n cael eu galw i gael eu harchwilio? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Byth
- Anaml (unwaith y flwyddyn)
- Yn achlysurol (misol)
- Yn aml (yn wythnosol neu fwy)

¹ At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, [dosbarthiad maint busnes swyddogol y llywodraeth](#) sydd wedi'i ddefnyddio i wahaniaethu rhwng y categorïau.

9. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â bwriad y llywodraeth i godi'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth yn Lloegr? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Wn i ddim

10. Rhowch unrhyw resymau i ategu'ch ateb i Gwestiwn 9 (Testun rhydd)

11. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â bwriad y llywodraeth i ymestyn y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr i gynnwys BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth yng Nghymru a'r Alban? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Wn i ddim

12. Rhowch unrhyw resymau i ategu'ch ateb i Gwestiwn 11

13. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r amrediad dangosol o daliadau? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Wn i ddim

14. Rhowch unrhyw resymau i ategu'ch ateb i Gwestiwn 13

15. Yn eich barn chi, a fydd cyflwyno'r taliadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith yn fras ar gyfer eich busnes neu'ch sefydliad chi? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Eithriadol o Gadarnhaol
- Eithaf cadarnhaol
- Ddim yn Gadarnhaol nac yn Negyddol
- Gweddol negyddol
- Eithriadol o negyddol
- Wn i ddim

16. Rhowch unrhyw resymau i ategu'ch ateb i Gwestiwn 15

17. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r tâl arfaethedig o £10 ar gyfer llwythi Cynhyrchion Anifeiliaid risg isel? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Wn i ddim

18. Rhowch unrhyw resymau i ategu'ch ateb i Gwestiwn 17

19. Pa mor aml y dylai'r llywodraeth adolygu'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Bob chwe mis
- Bob blwyddyn
- Bob dwy flynedd neu fwy
- Wn i ddim

20. Rhowch unrhyw resymau i ategu'ch ateb i Gwestiwn 19 (Testun rhydd)

21. Pa mor aml fyddech chi'n hoffi i'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr gael ei gasglu? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Fesul llwyth
- Yn fisol
- Unrhyw gyfnod arall: rhowch y manylion

22. Rhowch unrhyw resymau i ategu'ch ateb i Gwestiwn 21

23. Rydyn ni wedi dylunio'r model codi tâl hwn i leihau'r effaith gymaint ag y bo modd ar draws pob busnes. Byddem yn croesawu adborth ar effeithiau'r cynnig ar fusnesau o bob maint a'r rheiny'n gweithredu modelau busnes gwahanol. Rydym yn arbennig o awyddus i beidio ag effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach. Disgrifiwch sut rydych chi'n gweld y model yn effeithio ar eich busnes chi, a beth fyddai'n ddefnyddiol i liniaru hyn.

24. Y dyddiad gweithredu sydd wedi'i gynnig ar gyfer y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr yw Ebrill 2024. Rydym yn ymwybodol bod busnesau'n wynebu ystod o bwysau byd-eang ar y gadwyn gyflenwi ac fe fyddwn ni felly yn ystyried y dyddiad gweithredu ar gyfer y taliadau hyn yng ngoleuni amodau economaidd ehangach. Rhowch unrhyw adborth ar y dyddiad gweithredu arfaethedig.

Y camau nesaf

Byddwn yn adolygu'n ofalus yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad gan gymryd i ystyriaeth y safbwyntiau a fynegir, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir a gaiff ei defnyddio i fireinio cynigion pellach ac i lywio'r asesiad o'r effaith. Disgwylir i grynodedb o'r ymatebion gael ei gyhoeddi ar wefan gov.uk yn dilyn yr ymgynghoriad.

Yn dilyn yr ymgynghoriad bydd gweinidogion perthnasol Defra yn gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw newidiadau yn y ddeddfwriaeth, gan ystyried yr ymatebion a ddaw i law.

Cyn rhoi'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr ar waith, byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad manwl o'r costau gweithredu yn y BCPs sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth, a'r cyfraddau tâl terfynol. Bydd hyn yn rhoi eglurder a sicrwydd pellach ar y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr a bydd yn helpu'r rhanddeiliaid i ddeall effeithiau posibl y tâl hwn ar eu gweithrediadau.

Beth fydd yn digwydd i'r ymatebion?

Amcan yr ymgysylltu hwn yw profi'r model drafft a chasglu syniadau. Bydd syniadau'r rhanddeiliaid, drwy'r porth ar-lein ac mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cael eu defnyddio i brofi'n rhagdybiaethau am y Model Gweithredu Targed Ffiniau ac yn cael eu defnyddio i fireinio'n cynigion cyn cyhoeddi fersiwn derfynol o'r model yn y Gwanwyn.